Adroddiad Cyfarfod 09:10:13

Cynhaliwyd cyfarfod Hydref o'r gangen yn festri Cysegr nos fercher y 9fed o Hydref am 7.30. Dechreuwyd y noson drwy ganu can y mudiad gyda Beti Owen yn cyfeilio. Llywyddwyd gan Jen gan ddiolch am y dymuniadau da dderbyniodd mis diwethaf i Aled a Casi ar achlysur eu priodas yn ddiweddar, roedd yn falch o gael dweud fod y diwrnod wedi mynd yn hwylus iawn a phawb wedi mwynhau.

Llongyfarchwyd Alys am ddod yn nain eto, ac i Rita ar ddathlu penblwydd arbennig, ac i Mair Williams oedd yn dathlu penblwydd ar noson y cyfarfod

Cydymdeimlwyd ac Eirlys Sharpe ar golli brawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Gwynfor, gwr Edwina fu yn yr ysbyty yn ddiweddar,a'n bod yn falch ei fod adref ac yn gwella'n dda.

Mae gwefan MYW Cangen Bethel wedi cael mis cyntaf llwyddiannus ac wedi cael dros 1843 o 'hits'!

Llongyfarchwyd bwyllgor Neuadd Goffa Bethel fu'n brysur yn ail wneud y neuadd dros y misoedd diwethaf , mae'n werth ei gweld. Gofynwyd i Falmai gario'r neges i weddill y pwyllgor.Atgoffwyd pawb fod eisteddfod Bethel ddydd Sadwrn Hydref 19, dymunwyd yn dda i bawb sy'n cystadlu.

Bu 'r swyddogion yn y Cyfarfod Rhanbarth ar Fedi 23 ac roedd o'n gyfarfod diddorol iawn. Braf gweld Bethel mor weithgar yn y rhanbarth gyda Mair Price yn ysgrifennydd a Gwyneth yn drysorydd y rhanbarth. Nodwyd fod £18,000 wedi ei gasglu at Gymorth Cristnogol trwy werthu bagiau.Diolch am bob cefnogaeth. Cofiwch gellir Bidio ar y Bagiau trwy fynd ar wefan MYW i e-bostio eich bid neu ffonio'r Ganolfan 01970 6116616. Cafwyd adroddiad gan Gwyneth fod sefyllfa arianol y Rhanbarth yn iach.Penderfynwyd ail sefydlu pwyllgor chwaraeon Rhanbarth nos Lun Ionawr 27 am 6.45.

Cynhelir Ysgol Undydd y Dysgwyr eleni ar Dachwedd 16. Lleoliad newydd - Ganolfan Gymraeg i Oedolion yn Stryd y Deon, Bangor, rhwng - 2:00 - 3:30y.p mae tocynnau parcio gan yr ysgriffennydd Adroddwyd fod y Pwyllgor Anabl wedi rhoi £2765 i CLIC ym mis Awst.

Croesawyd Sara a Miriam o Gwmni Roberts, Felinheli atom i son am eu cynnyrch. Dechreuwyd drwy gael cyfle i flasu peth o'u cynnyrch, aeth pawb ati'n eiddgar iawn.

Wedi 'r blasu cawsom hanes y cwmni a sefydlwyd yn 1924 gan hen daid y genod sef Thomas Roberts yn y Felinheli. Roedd ganddynt hen luniau o'r gweithwyr , hen daid , taid, a'u tad fu'n rhedeg y cwmni.Erbyn heddiw mae'r ffactri yn Griffiths Crossing ac yn cyflogi 90 o weithwyr. Maent yn gwerthu eu cynnyrch i gwmniau bragwyr i'w bwytai ac yn cydweithio'n agos efo cogyddion y cwmniau i gyflwyno bwydydd newydd i'w cwsmeriaid. Enillodd y Cwmni 'Cyflewnwr y Flwyddyn' i gadwyni tafarndai drwy Brydain. Mae 'r deunydd crai o'r ansawdd orau, a'u siop yn Griffiths Crossing yn agored i'r cyhoedd .

Wedi noson hynod o ddifyr a'r aelodau yn cael cyfle i holi'r genod diolchwyd iddynt gan Liz Evans oedd yn cofio nain Miriam a Ruth oedd a'i gwreiddiau ym Methel. Diolch i Mair Read ac Eirlys Williams am baratoi'r banad ac enilliwyd y raffl gan Rita. Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 13eg yng nghwmni Anna Pritchard , Arlunydd a Dyluniwr. Mae te, coffi a siwgr yn y gangen ar gyfer y banad, felly dim ond llefrith, bisgedi a raffl sydd angen i'r rhai sy'n gwneud y banad ddod i'r cyfarfod.

A. Elis